# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 5 Mawrth, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, G.M. Ball, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby ac H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro); G. Doyle, D. Dutch a H. Smith (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), Dr. I.J. Johnson a S.D. Perkes (Aelod Cabinet dros Dai Sector Cyhoeddus ac Ymgysylltu â Thenantiaid).

## CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

## YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB -

Derbyniwyd hwn gan V. John (Gweithgor Tenantiaid/Cynrychiolydd Panel).

## COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2025 fel cofnod cywir.

## DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

## CYFLWYNIAD: DIWEDDARIAD GAN YR UNED AMDDIFFYN SIFIL (UAS) –

Rhoddwyd y cyflwyniad gan y Prif Swyddog Amddiffyn Sifil a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith diweddar a pharhaus yr uned. Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y Swyddog y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Roedd safle Dow Silicon yn y Barri yn 'safle domino', lle roedd un cynllun argyfwng yn cwmpasu'r holl gwmnïau cemegol ar y safle, gyda phob sefydliad yn mewnbynnu i'r cynllun hwn.
- Roedd yn ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i ysgrifennu'r cynllun oddi ar y safle a sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol.
- Roedd angen i'r cynllun gael ei ailysgrifennu, ei ddilysu a'i brofi bob tair blynedd o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Cyfoeth Naturiol Cymru oedd yr awdurdodau cymwys gan oruchwylio a chymeradwyo'r gwaith hwn.
- Roedd digwyddiad ar safle Dow Silicon ym mis Mehefin 2024, yn ymwneud â'r larymau yn cael eu seinio. Cafodd y swyddogion ôl-drafodaeth yn dilyn y digwyddiad hwn, ac roedd gwaith sylweddol wedi'i wneud gyda'r busnesau ar y safle ynghylch cyfathrebu, yn ogystal ag ar y cyd â Thîm Cyfathrebu'r Cyngor ar hyn o bryd, er mwyn dosbarthu negeseuon cliriach i'r cyhoedd, er mwyn sicrhau bod y gymuned yn deall yn iawn yr hyn yr oedd digwyddiadau o'r fath yn ei olygu iddi hi.

Heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, mae'r Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad ynghylch diweddariad gan yr Uned Amddiffyn Sifil.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

TAI CYNGOR BRO MORGANNWG – POLISI AR GYMHWYSO SAFON ANSAWDD TAI CYMRU 2023 (CYF) -

Cyflwynwyd y cyfeirnod gan y Cabinet dyddiedig 6 Chwefror, 2025 fel y'i cynhwyswyd yn yr agenda gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Adeiladu.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, rhoddodd y swyddogion y cyngor canlynol mewn ymateb i gwestiynau gan y Pwyllgor:

- Amcangyfrifir bod 25% o stoc dai'r Cyngor wedi derbyn Inswleiddio Waliau Allanol, er mwyn lleihau colli gwres o'n cartrefi;
- Roedd yn anodd iawn rhoi amserlen ar gyfer pryd y byddai'r holl gartrefi a oedd yn weddill yn cael eu gwella i'r safon. Er bod PAS2035 yn rhoi llwybr targed, roedd yn anodd cynllunio nes bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael;
- Roedd swm yr adnoddau yr oedd eu hangen i ymdrin â'r gwaith llawn yn helaeth. Gallai costau fesul cartref fod tua £50k yr eiddo, gyda thua 4,000 o eiddo angen eu gwella. Gallai hyn fod yn gyfartal ag angen £200m o gyllid ychwanegol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai;

- Roedd hefyd rai ffactorau allanol amrywiol fel cyfraddau llog, a oedd yn ei gwneud yn anodd rhagweld amserlen, fodd bynnag, byddai mwy o sicrwydd yn bosibl dros y ddwy flynedd nesaf;
- Cafodd amrywiaeth o waith effeithlonrwydd ynni ei wneud i wella cartrefi i'r safon newydd, a chafodd dull cyfannol o wella pob eiddo unigol ei ddefnyddio, er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf posibl i'r amgylchedd a'r tenant;
- Byddai'r newid i systemau ynni-effeithlon sy'n seiliedig ar drydan yn y cartref yn golygu newid sylweddol i denantiaid, yr oedd llawer ohonynt wedi arfer â systemau nwy a oedd yn gweithio'n wahanol iawn, a her allweddol fyddai dod â thenantiaid ynghyd â'r broses;
- Byddai Swyddogion Cyswllt Tenantiaid yn cefnogi tenantiaid gyda'r newid, a byddai hyfforddiant yn cael ei roi ar sut i ddefnyddio'r systemau newydd cyn i'r gwaith ddechrau er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn deall sut yr oeddent yn gweithio a manteision eu defnyddio. Byddai tenantiaid eu hunain hefyd yn allweddol wrth hyrwyddo'r newidiadau a'r cymorth sydd ar gael i denantiaid eraill;
- Roedd y swyddogion yn awyddus iawn i osgoi achosi unrhyw dlodi tanwydd ychwanegol i denantiaid drwy'r gwelliannau;
- Ceisiwyd effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio trwy ddull adeiladwaith yn gyntaf o ddylunio cartrefi newydd, yn ogystal ag ychwanegu technoleg;
- Roedd technoleg paneli solar wedi gwella'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu eu heffeithlonrwydd a pheidio ag angen cyfeiriadedd penodol mwyach;
- Roedd paneli solar wedi'u gosod ar fflatiau ar Severn Avenue yn y Barri gan alluogi i drydan gael ei rannu ymhlith y fflatiau. Gallai data a gasglwyd o'r paneli solar hyn ddangos sut roedd y paneli'n perfformio, gallai hyn helpu i nodi tenantiaid â phatrymau defnydd anarferol a allai fod angen cymorth ychwanegol, a hefyd roedd yn golygu gostyngiad ym miliau rhai tenantiaid;
- Roedd y gostyngiad mewn rhai biliau yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaid gofrestru i gynllun er mwyn cyflawni'r arbedion, ac ar hyn o bryd nid oedd nifer y bobl a oedd yn manteisio ar y cynllun hwn wedi bod yn uchel. Roedd y swyddogion yn ymwybodol o'r angen i godi ymwybyddiaeth o'r manteision hyn ymhlith preswylwyr;
- Bu'r tîm cyngor ariannol ac incwm yn gweithio gyda thenantiaid a oedd yn profi tlodi i ystyried ffyrdd o wella eu sefyllfa ariannol;
- Nid oedd pob eiddo yn gallu cyflawni sgôr tystysgrif perfformiad ynni (TPY) 'A';
- Roedd rhai pryderon ar draws Awdurdodau Lleol am lefel yr adnoddau a oedd ar gael ar gyfer blaenoriaethau cystadleuol adeiladu tai Cyngor newydd, yr ymrwymiad i fynd i'r afael â digartrefedd a'r ymrwymiad i gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar draws y stoc dai. Byddai angen talu am y lefel hon o fuddsoddiad drwy rent tenantiaid, neu drwy fuddsoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru;
- Roedd tua 150 o bympiau gwres eisoes wedi'u gosod yn eiddo presennol y Cyngor ar draws Bro Morgannwg. Nid hyn oedd yr unig ateb a ddefnyddiwyd o bell ffordd, a dim ond lle bo'n briodol ar gyfer yr eiddo y gosodwyd pympiau gwres. Roedd yn ymddangos bod pympiau gwres yn gweithio, er bod hyn yn ddibynnol ar ymddygiad tenantiaid. Gan fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch

eu defnydd, roedd y Cyngor yn eu gweithredu'n ofalus, ac yn achos rhai eiddo, roedd mesurau inswleiddio a gwydro’n fwy priodol.

Heb unrhyw ymholiadau na sylwadau pellach, mae’r Pwyllgor wedi gwneud y canlynol:

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cynnwys cyfeirnod y Cabinet a’r adroddiad atodol ar Dai Cyngor Bro Morgannwg – Polisi ar Gymhwyso Safon Ansawdd Tai Cymru ‘23.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys y geirda a'r adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2024/25 (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Adeiladau a Thai, a roddodd wybod bod yr adroddiad perfformiad yn cyflwyno cynnydd y Cyngor yn Chwarter 3 (Ch3) (1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2024) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2024/25) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Yn dilyn prawf o gysyniad gan ddefnyddio’r Fframwaith Perfformiad Corfforaethol presennol o fesurau a chamau gweithredu i ddatblygu’r defnydd o Power BI i gefnogi adrodd perfformiad, roedd y Swyddogion wedi cynhyrchu ciplun perfformiad Ch3 ar gyfer y Cynllun Cyflawni Blynyddol presennol (2024/25) a fanylwyd yn y cyflwyniad a atodwyd i’r adroddiad (Atodiad A). Rhoddodd y ciplun drosolwg o gynnydd yn erbyn camau gweithredu a gynlluniwyd a dangosyddion perfformiad sy'n cyd-fynd â’r 4 Amcan Lles ac roedd yn rhestru unrhyw eithriadau (camau gweithredu coch y priodolwyd sgôr COG Goch iddynt) mewn fformat hygyrch. Cynhyrchwyd hyn fel rhan o ymdrechion i ddatblygu’r dull gweithredu a byddai'n destun mireinio ymhellach wedi'i lywio gan farn cydweithwyr swyddogion ac Aelodau Etholedig drwy gydol cyfnod adrodd perfformiad 2024/25, gyda'r bwriad o lywio’r trefniadau monitro ac adrodd ar gyfer y Cynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2025-30. Ar hyn o bryd roedd y Swyddogion yn gweithio tuag at gynhyrchu cipluniau perfformiad a oedd yn benodol i gylch gwaith Pwyllgorau Craffu a fyddai'n cael eu hadrodd yn Ch3.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodeb o'r cynnydd cyffredinol yn erbyn ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 fel sy'n cyd-fynd â 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i’r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Wedi ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, fe wnaeth y Pwyllgor wedyn:

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Chwarter 3 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.